**Dyddiad:** **Dydd Mercher 15 Mai 2002**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Sgrinio Cyn-geni**

## Diben

1. Galluogi'r Pwyllgor i nodi'r argymhelliad i sefydlu *Rhwydwaith Clinigol a Reolir* o wasanaethau sgrinio cyn-geni ar sail Cymru gyfan.

## Y Cefndir

2. Ym mis Ionawr 2001, cytunais y dylid datblygu gwasanaeth unffurf yng Nghymru i ddylanwadu ar ddewisiadau pob menyw feichiog o safbwynt sgrinio cyn-geni a chynnal safonau uchel cyson. Byddai angen i'r gwasanaeth gydymffurfio ag argymhellion y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol.

3. Fel cam cyntaf mewn prosiect dau gam gofynnwyd i Ymddiriedolaeth GIG Felindre gynnal astudiaeth waelodlin ac arfarniad o'r dewisiadau, ar gyfer darparu gwasanaeth unffurf o ansawdd sy'n cynnwys archwilio, monitro, cyflwyno adroddiadau a hyfforddi.

4. Mae cam cyntaf yr astudiaeth bellach wedi'i gwblhau. Nododd yr astudiaeth waelodlin nifer o bryderon:

- Prinder polisïau a phrotocolau clir mewn rhai Ymddiriedolaethau;
- Anghydraddoldeb o ran darparu gwasanaethau;
- Oriau'r bydwragedd sy'n sgrinio'n annigonol i gynnal datblygiad y gwasanaeth;
- Methu â chael caniatad dilys bob amser;
- Gweithio aml-broffesiynol gwael;
- Hyfforddiant ad hoc;
- Diffyg archwilio cadarn;
- Mynediad gwael i wybodaeth am gleifion;
- Prinder gwasanaethau dehonglwyr;
- Amrywiaeth nodedig yn y nifer sy'n cael eu sgrinio am risg Down;

- Dim sgrinio HIV mewn rhai Ymddiriedolaethau;
- Trefniadau ar gyfer trin crymangell a thalasemia yn wan mewn llawer o ardaloedd.

5. Ystyriwyd pedwar dewis ar gyfer rheoli sgrinio cyn-geni yng Nghymru, fel a ganlyn:

- Buddsoddi unrhyw arian ychwanegol sydd ar gael i'r gwasanaethau mamolaeth yn uniongyrchol yn yr Ymddiriedolaethau;
- 22 o Grwpiau Iechyd Lleol (neu Fyrddau Iechyd Lleol neu Bartneriaethau Byrddau Iechyd Lleol yn y dyfodol) i gomisiynu a rheoli sgrinio cyn-geni;
- Llywodraeth Cynulliad Cymru i gomisiynu neu gontractio ar gyfer sefydliad sgrinio cyn-geni ar wahân wedi'i ariannu gan y GIG, sy'n darparu gwasanaethau sgrinio gyda rhwydwaith o glinigau lleol;
- Sefydlu *Rhwydwaith Clinigol a Reolir* ar gyfer sgrinio cyn-geni.

**Crynodeb o'r Argymhellion**

6. Argymhelliad yr arfarniad o'r dewisiadau yw *sefydlu Rhwydwaith Clinigol a Reolir* ar gyfer Cymru Gyfan.

7. Byddai angen i *Rwydwaith Clinigol a Reolir* gael ei roi dan adain sefydliad priodol arall (Ymddiriedolaeth GIG sy'n bodoli eisoes), tîm rheoli aml-broffesiynol, cyllid sydd wedi'i glustnodi'n benodol a staff craidd lleol Cymru Gyfan, yn gweithio i bolisi cyffredin gyda llinellau clir o awdurdod ac atebolrwydd. Nodwyd nifer o fanteision ychwanegol:

- Ffocws cenedlaethol ar gyfer cysylltiadau priodol â datblygiadau sgrinio cyn-geni;
- Ffocws ar gyfer cysylltiad y cyhoedd â datblygu rhaglenni;
- Grwp amlddisgyblaethol o'r tu allan ac yn annibynnol ar Ymddiriedolaethau, a fyddai'n gallu arwain, hwyluso a rheoli ansawdd y rhaglen;
- Rhwydwaith system gyfan wedi'i rheoli, sy'n gallu cynllunio a gweithredu profion newydd.

8. Yn ôl yr argymhelliad bydd angen:

- Grwp Rheoli Amlddisgyblaethol Cymru Gyfan gyda chymorth 3 Grwp Rheoli Amddisgyblaethol lleol;
- Gweithwyr proffesiynol amlwg wedi'u penodi ymhob Ymddiriedolaeth i gefnogi'r gwaith o weithredu'r polisi a safonau sgrinio cyn-geni ar gyfer Cymru Gyfan yn lleol;
- 3 Chydlynydd Rhaglenni Lleol, a fyddai'n cynorthwyo gweithwyr proffesiynol amlwg yr Ymddiriedolaeth ac yn hwyluso'r gwaith o ddarparu rhaglen sgrinio broffesiynol ar gyfer Cymru Gyfan yn lleol;
- ffynhonnell wybodaeth Cymru Gyfan ar gyfer menywod;
- mecanweithiau sicrwydd ansawdd priodol;
- cyllid ychwanegol wedi'i glustnodi'n benodol.

9. Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre eisoes yn rheoli rhaglenni sgrinio cenedlaethol (Bron Brawf Cymru a Sgrinio Serfigol Cymru) a byddai manteision ariannol ac anariannol sylweddol o rannu gwasanaethau cefnogi arbenigol gyda'r rhaglenni sgrinio hyn.

10. Pe byddai argymhellion yr arfarniad o'r dewisiadau yn cael eu gweithredu, byddent yn bodloni'r canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yn yr Adolygiad o Wasanaethau Plant ag Anghenion Iechyd Arbennig h.y. byddai diagnosis yn digwydd yn gynnar ac yn gyson, gwybodaeth dda i fenywod a chyngor anfarnol.

11. Nid yw sgrinio HIV ar gael i holl fenywod Cymru o hyd, er bod mwy o Ymddiriedolaethau'n cynnig sgrinio erbyn hyn. Dyfarnwyd £220,997 fesul pen i bob Ymddiriedolaeth yng Nghymru er mwyn ysgogi'r polisi ac i gynnig hyfforddiant sgiliau cynghori sylfaenol i fydwragedd yn 2001/02.

12. Dylai integreiddio o fewn prosiect sgrinio cyn-geni Cymru Gyfan ddarparu mecanweithiau sicrwydd ansawdd; cytundeb ar y setiau data sy'n ofynnol ar gyfer monitro ac adroddiadau rheolaidd ar y rhaglen sgrinio cyn-geni; a gwybodaeth i fenywod, yn arbennig menywod o grwpiau ethnig lleiafrifol a phobl ifanc yn eu harddegau. Bydd hefyd yn darparu'r gofynion addysg ac achredu y dywedodd bydwragedd y mae'n rhaid iddynt eu cael cyn gallu rhoi'r polisi sgrinio cyn-geni am HIV ar waith.

13. Yn ddiweddar cytunais y gall Cam 2 o'r prosiect fynd yn ei flaen ac y bydd hefyd yn cynnwys gwaith ar sgrinio am HIV. Cynhelir Cam 2 yn 2002-03, a bydd y cam hwn yn datblygu gwasanaethau sgrinio cyn-geni yng Nghymru a byddai'n paratoi ar gyfer cyflwyno Rhwydwaith Glinigol a Reolir yn y dyfodol.

14. Bydd Cam 2 o'r prosiect yn cynnwys:

- Polisïau a safonau Cymru Gyfan ar gyfer sgrinio cyn-geni
- Datblygiad ymagwedd strategol i alluogi menywod i wneud dewis deallus ynghylch sgrinio cyn-geni drwy gynnwys gwybodaeth ysgrifenedig Cymru Gyfan i fenywod. Canllawiau Cymru Gyfan ar ddefnyddio llinell iaith.
- Strategaeth ddatblygu amlbroffesiynol Cymru Gyfan ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd
- Datblygu ymagwedd Cymru Gyfan i uwchsain.
- Cyngor i'r gwasanaeth ar alluogi'r defnyddiwr i fod yn gysylltiedig â datblygiadau sgrinio cyn-geni
- Ystyried a chynllunio'r ffordd ymlaen ar gyfer sgrinio am afiechyd hemoglobin.
- Datblygu strategaeth rheoli gwybodaeth a thechnoleg gydag argymhellion yn ymwneud â'r isadeiledd angenrheidiol ar gyfer archwiliad.
- Integreiddio sgrinio cyn-geni am HIV o fewn y prosiect sgrinio cyn-geni gan gynnwys archwiliad o'r ddarpariaethau gyfredol.

**Camau Gweithredu ar gyfer y Pwyllgor**

15. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad.

**JANE HUTT**
**Y Gweinidog dros Iechyd Gwasanaethau Cymdeithasol**